Beibl i Blant
yn cyflwyno

Iesu'n tawelu'r storm ar y llyn

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Janie Forest

addaswyd gan: Ruth Klassen

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Alastair Paterson

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2020 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.



Roedd Iesu a'i ddisgyblion mewn cwch pan gododd storm ffyrnig. Chwipiodd y gwynt y tonnau ar Lyn Galilea.



Roedd perygl y byddai cychod yn cael eu suddo a byddai pobl yn boddi.

Cafodd y disgyblion eu dychryn yn ofnadwy gan y storm. Roedd y tonnau'n dod dros ochr y cwch ac yn ei lenwi â dŵr. Ond roedd Iesu'n cysgu'n drwm a'i ben ar glustog.

Dyma'r disgyblion yn gweiddi arno, "Achub ni, Arglwydd, rydyn ni'n mynd i farw!"

“Pam dych chi mor ofnus, ble mae’ch ffydd chi?” meddai Iesu wrth ei ddisgyblion. Yna gorchmynnodd Iesu i’r gwynt dawelu … a … gorchmynnodd i’r tonnau gwyllt fod yn llonydd.

GOSTEGODD Y GWYNT … AC AETH Y LLYN YN DAWEL A LLONYDD.



Roedd y disgyblion wedi eu syfrdanu. Dyma nhw'n dweud, "Pwy ydy'r dyn yma, mae hyd yn oed y gwynt a'r tonnau yn gwrando arno!"



Cafodd Iesu ddiwrnod prysur arall cyn hir wedyn. Cafodd ei ddilyn gan 5000 o bobl i le unig.

Trwy bŵer Duw, rhoddodd Iesu fwyd i'r dyrfa i gyd wrth ddefnyddio cinio bachgen bach. Pan ddaeth diwedd y dydd, dyma Iesu'n anfon pawb oddi yno.

Bu'n rhaid i hyd yn oed y disgyblion adael. Dyma Iesu'n gwneud iddyn

nhw fynd yn ôl i'r cwch a chroesi'r Llyn o'i flaen.



Ar ôl i bawb adael, aeth Iesu i fyny mynydd i weddïo. Wrth iddi nosi, roedd Iesu yno ar ei ben ei hun.


Ar y llyn,
roedd y
disgyblion
yn wynebu
storm o
wynt.

Roedd y gwynt
yn eu herbyn ac
roedden nhw'n
bell o'r tir
er eu bod
nhw wedi
bod yn
rhwyfo
ers oriau.


Doedd y disgyblion ddim yn gwybod hyn, ond roedden nhw'n mynd i weld rhywbeth annisgwyl iawn yn digwydd!

Rhwng tri a chwech o'r gloch y bore, yng nghanol y llyn stormus, gwelodd y disgyblion rywbeth wnaeth iddyn nhw ddychryn am eu bywydau.

"Ysbryd yw e!" medden nhw. Ond Iesu, eu Harglwydd a'u Meistr oedd yno, YN CERDDED AR Y DŴR.

Dyma Iesu'n dweud wrthyn nhw, "Mae'n iawn! Fi ydy e. Peidiwch bod ag ofn."
"Arglwydd, os mai ti sydd yna" meddai Pedr, "gad i mi ddod atat ti ar y dŵr."

“Iawn, tyrd,” meddai Iesu. Yna camodd Pedr allan o'r cwch yn ddewr a dechrau cerdded ar y dŵr tuag at Iesu.

Ond pan welodd mor gryf oedd y gwynt, roedd arno ofn. Dechreuodd suddo, a gwaeddodd "Achub fi, Arglwydd!"

Dyma Iesu'n estyn ei law allan yn syth a gafael ynddo. "Ble mae dy ffydd di?" meddai wrtho, "Pam wnest ti amau?" Wrth iddyn nhw ddringo i mewn i'r cwch dyma'r gwynt yn tawelu.

Dyma'r rhai oedd
yn y cwch yn addoli
Iesu, a dweud,
"Mae'n wir, Ti ydy
Mab Duw."

Iesu'n tawelu'r storm ar y llyn

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Mathew 8, Mathew 14,
Marc 4, Luc 8

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16